

GEE, THOMAS (1815 - 1898), pregethwr, newyddiadurwr, gwleidydd

Enw: Thomas Gee

Dyddiad geni: 1815

Dyddiad marw: 1898

Priod: Susannah Gee (née Hughes)

Plentyn: Jane Emily Davies (née Gee)

Plentyn: Howel Gee

Rhiant: Mary Gee (née Foulkes)

Rhiant: Thomas Gee

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: pregethwr, newyddiadurwr, gwleidydd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Argraffu a Chyhoeddi

Awdur: Edward Morgan Humphreys

Ganwyd yn Ninbych, 24 Ionawr 1815, mab Thomas Gee, argraffydd, a Mary Foulkes, Hendre'r Wydd. Addysgwyd ef yn ysgol Grove Park, Wrecsam, ac ysgol ramadeg Dinbych, a phrentisiwyd ef yn argraffydd gyda'i dad pan yn 14 oed. Wedi gorffen ei brentisiaeth bu'n gweithio o 1836 hyd 1838 yn swyddfa Eyre a Spottiswoode yn Llundain, gan ddychwelyd i Ddinbych at ei dad yn 1838. Yn y flwyddyn honno dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calфинаidd a pharhaodd i bregethu, gyda dilyn ei alwedigaeth fel cyhoeddwr ac argraffydd, ond ni chymerodd ofal eglwys. Gweithiodd o blaid yr ysgol Sul ac achos dirwest yn arbennig. Yn 1845 bu farw ei dad gan adael y busnes yn ei ddwylo ef, ac yn yr un flwyddyn dechreuodd Gee gyhoeddi'r *Traethodydd*, cylchgrawn chwarterol, gyda [Dr. Lewis Edwards](#), y Bala, yn olygydd. Yn 1854 dechreuodd ar antur fawr arall, sef cyhoeddi *Y Gwyddoniadur*, gwaith a gwplawyd, yn ddeg cyfrol, erbyn 1878, ac a gostiodd tuag £20,000. Cyhoeddwyd ail argraffiad yn 1896. Ar 4 Mawrth 1857 daeth rhifyn cyntaf *Baner Cymru* allan, yn bapur wythnosol, ac yn Hydref 1859 unwyd *Yr Amserau* ag ef; enw'r papur o hynny ymlaen oedd *Baner ac Amserau Cymru*, ac am rai blynyddoedd o Orffennaf 1861 ymlaen daeth allan ddwywaith yn yr wythnos. Trwy gyfrwng *Y Faner* daeth Gee yn ddylanwad mawr ym mywyd gwleidyddol, cymdeithasol, a chrefyddol Cymru am gyfnod maith. Er nad ef oedd y golygydd ar y dechrau, 'prin y rhaid dywedyd,' medd [T. Gwynn Jones](#), 'fod ei ddelw ar *Y Faner* o'r cychwyn,' a chyn bo hir cymerodd reolaeth y papur yn hollol yn ei law ei hun. Nid oedd yn llenor mawr, ond casglodd nifer o ysgrifenywyr galluog o'i gwmpas a chreodd bapur newydd a chanddo gymeriad nodweddiadol a neges. Yn ychwanegol i'w waith trwy'r *Faner* o blaid mesurau rhyddfrydol a diwygiadol, cymerth ran amlwg ar y llwyfan ac mewn pwyllgorau yngl n â gwleidyddiaeth a materion addysgol a chrefyddol. Bu farw yn Ninbych, 28 Medi 1898, a chladdwyd ef yn y gladdfa newydd. Priododd, Hydref 1842, Susannah, merch John Hughes, Plas Coch, Llangynhafal; bu ganddynt chwech o ferched a thri mab. Dilynwyd Thomas Gee yng ngofal *Y Faner* gan ei fab HOWEL GEE; bu ef farw yn 1903.

Awdur

Edward Morgan Humphreys, (1882 - 1955)

Ffynonellau

T. Gwynn Jones, *Cofiant Thomas Gee* (Dinbych 1913)

'[Thomas Gee fel Ymneillduwr Gwleidyddol](#)', *Y Geninen*, April 1901, tt.108-114

Darllen Pellach

Coflein: [Gwasg Gee, Denbigh](#)

Erthygl Wicipedia: [Thomas Gee](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [62806482](#)

Wikidata: [Q3399836](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

